



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Grŵp Pobl - J139

Mai 2018

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy>

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

## Sail y Dyfarniad

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai  
Is-adran Datblygu a Rheoleiddio'r Sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig  
Llywodraeth Cymru  
Swyddfa Merthyr Tudful  
Rhyd-y-car  
CF48 1UZ  
e-bost: [housingregulation@gov.wales](mailto:housingregulation@gov.wales)

## Proffil

Mae Grŵp Pobl Cyf (“Grŵp Pobl” neu “y Grŵp”) yn grŵp newydd a grëwyd drwy uno Grŵp Seren a Grŵp Gwalia Cyf. Mae'r Grŵp newydd yn darparu dros 16,921 o gartrefi ac wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Mae gan y Grŵp yr is-gwmnïau hyn Charter Housing Association Limited, Pobl Living Limited, Reach (Supported Living) Limited, Solas Cymru Limited, Derwen Cymru Limited, Arloes Limited, Gofal a Chymorth Gwalia Cyf, Tai Gwalia, Ymddiriedolaeth Gwalia, Tai Cartrefi Cyf, and Tai Gwyr Cyf.

Y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig :-

Mae Grŵp Pobl Gyfyngedig yn darparu gwasanaethau rheoli i'r Grŵp, mae'r Grŵp yn berchen ar ac yn rheoli 15,905 o gartrefi ac yn rheoli 1,016 o gartrefi syn eiddo i eraill;

Mae Charter Housing Association Limited (Charter Housing) yn darparu 5,187 o gartrefi anghenion cyffredinol;

Mae Seren Living Limited yn rheoli portffolio perchentyaeth cost isel sy'n cynnwys 234 o gartrefi, ac yn rhedeg asiantaeth gosod tai breifat;

Mae Reach (Supported Living) Limited yn cynnig gwasanaethau cymorth, i oedolion sydd ag anableddau dysgu yn bennaf, i bobl hŷn ac i eraill sydd angen cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol;

Mae Solas Cymru Limited yn cynnig llety ac amrywiaeth o wasanaethau i bobl ddigartref;

Ymunodd Derwen Cymru Limited, sef Newport Housing Trust Limited gynt, â'r Grŵp ar 1 Ebrill 2014 fel darparwr cartrefi arbenigol i bobl hŷn, gyda 763 o gartrefi;

Mae gan Derwen Cymru Limited is-gwmni o'r enw Arloes Limited, cwmni cyfyngedig sy'n rhedeg menter tariff cyflenwi trydan ffotofoltäig (paneli solar) y cwmni;

Grŵp Gwalia Cyf, sy'n darparu gwasanaethau rheoli i'r Grŵp a thua 4,700 o gartrefi anghenion cyffredinol a 300 o gartrefi gwarchod;

Gofal a Chymorth Gwalia Cyf, sy'n darparu gwasanaethau cymorth gofal a thai (gan gynnwys gofal integredig) ar gyfer amrywiaeth eang o grwpiau cleientiaid gan gynnwys gofal henoed;

Tai Cartrefi Cyf –yn rheoli'r portffolio llety myfyrwyr o tua 4,035 o gartrefi;

Mae Ymddiriedolaeth Gwalia yn elusen gofrestredig sy'n darparu cymorth ariannol i unigolion a grwpiau cymunedol yn yr ardaloedd lle mae Gwalia'n gweithredu.

Nid yw'r asesiad hon yn canolbwyntio ar ofal a chymorth neu lety gwasanaethau myfyriwr y Grŵp syn destun archwiliad gan gyrrff rheoleiddio eraill.

## Data Ariannol Allweddol

	Data Hanesyddol		Terfyn Cyfamod	Cyfartaledd ar gyfer y Sector
	2015/16	2016/17		2015/16
<b>Perfformiad</b>				
Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant	16.9%	19.6%	n/a	19.4%
Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant	6.4%	7.2%	n/a	9.0%
Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti	2.5%	2.4%	n/a	2.7%
<b>Cyllid</b>				
Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm	72%	69%	n/a	72%
Geriad	n/a	n/a	n/a	58%
Sicrwydd llog	n/a	n/a	n/a	147%
Ni ddarparwyd y cyfrifiadau geirio a sicrwydd llog gan y mae'r rhain wedi'u cyfrifo ar lefel is-gwmni.				

## Barn Reoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

### Statws Cydreoleiddio – Mai 2018

#### Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

#### Hyfywedd Ariannol - Safonol

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac mae gan y Gymdeithas yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.

